Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Cwmbrân
# Henllys Way
# St Dials
# Cwmbran
# Torfaen
# NP44 3NB

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd Gymraeg ddynodedig yw Ysgol Gymraeg Cwmbrân ac fe'i cynhelir gan Awdurdod Lleol Torfaen. Daw 84% o'r disgyblion o'r dref ei hunan a 16% o ddalgylch ehangach. Mae'r ysgol yn disgrifio'r ardal a wasanaethir ganddi fel un ddiwydiannol nad yw'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd.

Mae 364 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys 54 o blant meithrin yn rhan amser. Derbynia'r ysgol y disgyblion yn llawn amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Daw 99% o'r disgyblion o gartrefi ble na siaredir y Gymraeg fel iaith gyntaf. Daw 2% o gefndiroedd lleiafrifol ethnig. Tua 22% o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae'r ffigur hwn ychydig yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Mae gan 24% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, gydag un disgybl ar ddatganiad.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2011-2012 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Cwmbrân yw £2,893 sy'n cymharu gydag uchafswm o £7,173 ac isafswm o £2,725 ar gyfer ysgolion cynradd yn Nhorfaen. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 27ain uchaf o'r 31 ysgol gynradd yn Nhorfaen.

Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd yn Medi 2003.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod addysgu o safon dda yn yr holl ddosbarthiadau;
- ei bod yn cynnig ystod eang o brofiadau sy'n atgyfnerthu ac ysgogi'r dysgu;
- llwyddiant yr ysgol yn datblygu dwyieithrwydd;
- yr ethos Gymreig gref sy'n rhan annatod o bob agwedd o fywyd yr ysgol; a'r
- bartneriaeth effeithiol â'r rhieni.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y Pennaeth a'r Dirprwy adnabyddiaeth dda iawn o'r ysgol a gweledigaeth glir;
- bod pawb yn gweithio yn effeithiol fel tîm;
- bod yr ysgol wedi adnabod yn gywir trwy ei gweithdrefnau effeithiol agweddau penodol i'w datblygu i'r dyfodol, a'u rhoi ar waith; a
- llwyddiant arweinwyr a rheolwyr i gynllunio'n strategol ac chreu cyfundrefnau effeithiol iawn ar gyfer codi safonau.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen:

A1 parhau i wella cyflawniadau ysgrifennu bechgyn yn y Cyfnod Sylfaen;

A2 parhau i godi cyfran y lefelau 5 yng nghyfnod allweddol 2 a

A3 rhannu arferion gorau'r addysgu ar draws yr ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Dengys canlyniadau asesiadau sylfaen y plant ar fynediad i'r ysgol, fod gan y rhan fwyaf ohonynt lefel dda o allu yn y medrau sylfaenol ac eithrio yn y Gymraeg ble mae'r iaith yn newydd i bron bob un ohonynt. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da trwy'r Cyfnod Sylfaen ym mhob un o'r meysydd dysgu a chynnydd ardderchog yn y Gymraeg.

Roedd y ganran o ddisgyblion yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 1 yn 2011 yn uwch na'r cyfartaledd mewn ysgolion tebyg a chyfartaledd ysgolion Cymru. Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefel 2 mewn mathemateg yn uwch na chyfartaledd Cymru a chystal ag ysgolion tebyg. Mewn gwyddoniaeth mae'r ganran yn uwch na chyfartaledd Cymru ond yn is nag ysgolion tebyg. Mae canlyniadau'r merched yn sylweddol uwch na chanlyniadau'r bechgyn mewn ysgrifennu Cymraeg yn 2011.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn yr holl bynciau mewn cyfuniad yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011 yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru ac yn uwch neu'n agos at ganran canlyniadau'r teulu o ysgolion tebyg. Mae canlyniadau'r ysgol yn gyffredinol yn y ddau gyfnod allweddol wedi codi'n raddol ers 2008. Nid yw canlyniadau lefel 5 yr ysgol wedi bod cystal ag ysgolion tebyg mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Gwelwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng canlyniadau'r bechgyn a'r merched yn 2011 yn y Gymraeg a'r Saesneg ar lefel 5, gyda chanlyniadau'r bechgyn yn sylweddol is na'r merched.

Mae'r gwaith cyfredol yn llyfrau'r disgyblion yn dangos cynnydd amlwg mewn safonau medrau'n gyffredinol ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud yn ystod y gwersi. Maent yn awyddus i gyfrannu i drafodaethau ac i ymateb i gwestiynu'r athrawon yn effeithiol. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn y blynyddoedd cynnar yn ynganu ac yn goslefu'n ddealladwy, gydag amrediad eang o eirfa a mesur da o gywirdeb wrth ei defnyddio.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn gallu sgwrsio'n hyderus ac yn glir mewn gwahanol gyd-destunau. Trafodant brofiadau a digwyddiadau cyfarwydd yn hyderus ar lefel unigol ac fel aelodau o grŵp. Trwy gydol cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gofyn cwestiynau perthnasol ac yn ymateb i gyfraniadau disgyblion eraill yn synhwyrol. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn siarad yn hyderus mewn amryw o gyd-destunau. Maent yn cyflwyno gwybodaeth yn eglur ac yn effeithiol, ac yn dangos gafael dda ar gystrawen naturiol yr iaith lafar.

Mae safon darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y ddwy iaith yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion yn gyfarwydd ag ystod o strategaethau darllen ac yn gallu eu defnyddio i bwrpas. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae'r rhan fwyaf yn deall yr hyn y maent yn ei ddarllen gan fynegi barn a thrafod cynnwys llyfrau. Darllenant yn uchel gyda rhuglder, cywirdeb a phwyslais a mynegiant cynyddol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth o ystod eang o destunau ac yn gallu ymateb yn ystyrlon i'r cynnwys. Maent yn darllen ystod eang o ddeunyddiau gyda rhuglder ar draws y cwricwlwm a gallant ddewis a dethol rhannau penodol o lyfrau at eu defnydd o fewn eu gwaith.

Mae datblygiad ysgrifennu ar draws yr ysgol yn gyffredinol dda gyda mwyafrif o'r disgyblion yn cynhyrchu darnau estynedig effeithiol. Mae datblygiad ysgrifennu ar draws gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen yn y Gymraeg yn dangos cynnydd amlwg dros gyfnod byr o amser. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgrifennu yn glir ac yn ddiddorol mewn ystod eang o ffurfiau ac i amrywiaeth o bwrpasau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae gwahaniaeth arwyddocaol rhwng canlyniadau ysgrifennu'r merched a'r bechgyn yn 2011, gyda'r merched yn perfformio orau. Mae canran uwch o ferched na bechgyn hefyd yn cyrraedd lefel 5 yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim, disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, disgyblion mewn gofal neu o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn gwneud cynnydd priodol i'w hoed a'u gallu.

Er mai ail iaith yw'r Gymraeg i bron bob disgybl yn yr ysgol maent oll yn ymdrin â'r iaith Gymraeg yn hyderus yn fuan iawn ar ôl dechrau yn yr ysgol ac mae'r Cwricwlwm Cymreig yn greiddiol i waith ac ethos yr ysgol.

**Lles: Da**

Mae gan bron bob disgybl ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach. Cyfranogant yn rheolaidd mewn gweithgareddau cadw'n heini ac ymarfer y corff o fewn yr ysgol ac o fewn y clybiau wedi oriau ysgol. Gwnânt ddefnydd bwriadus o offer chwarae ychwanegol ar fuarth yr ysgol.

Teimla'r disgyblion oll yn ddiogel yn yr ysgol, a gwyddant at bwy i droi os oes ganddynt broblem. Ymddiriedant yn ei gilydd, a thrwy weithdrefn effeithiol Criw Cyfeillgar, gŵyr y disgyblion y gallant gefnogi'r naill a'r llall. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda a dangosant barch a gofal at ei gilydd ac at oedolion. Maent oll yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n gallu cydweithio'n effeithiol fel grwpiau. Dangosant fwynhad a balchder yn eu gwaith gan ddyfalbarhau ar eu tasgau am gyfnodau estynedig.

Mae'r gyfran bresenoldeb wedi dangos cynnydd graddol o 92% yn 2007 hyd at y 94% presennol.

Gwna'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco gyfraniad arwyddocaol i weithgareddau'r ysgol. Trwy eu hymdrechion maent wedi dylanwadu ar weithgareddau megis sefydlu bar salad ar gyfer cinio a chymryd rhan weithredol yn ystod yr wythnos hybu iechyd.

Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn cyngherddau, gwasanaethau ac eisteddfodau yn rheolaidd.  Maent bron oll, ar draws yr ystod oedran yn elwa o'r cyfleoedd hyn ac yn meithrin hyder.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu gwerthfawr ar gyfer ei disgyblion o fewn gwersi a thrwy ymweliadau.  Mae'r ymweliadau hyn â'r gymuned ac ymwelwyr o'r gymuned yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Trwy gynllunio trylwyr ar y cyd, mae'r athrawon yn sicrhau cysondeb a dilyniant priodol yn yr addysg.  Rhoddir rhan i'r disgyblion yn y cynllunio tymhorol sy'n cyfrannu'n effeithiol at eu hawydd i ddarganfod a dysgu.

Cynllunnir cyfleoedd ysgogol i'r disgyblion ddatblygu a defnyddio eu medrau yn hyderus ar draws y cwricwlwm.  Gwneir defnydd effeithiol o gyfrifiaduron ac adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r modd y mae'n cynllunio ar gyfer trwytho'r disgyblion yn yr iaith Gymraeg.  Mae'r modd y mae'r ysgol yn datblygu iaith Gymraeg a dwyieithrwydd yr holl ddisgyblion yn rhagorol.  Mae systemau hynod lwyddiannus mewn lle er mwyn annog y disgyblion i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.  Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn gwerthfawrogi manteision dysgu Cymraeg a dod yn fwyfwy dwyieithog.

Mae'r ffordd y mae'r ysgol yn cyflwyno'r Cwricwlwm Cymreig yn nodwedd gref o waith yr ysgol.  Cyfoethogir  dealltwriaeth yr holl ddisgyblion o nodweddion diwylliannol, economaidd a hanesyddol Cymru yn effeithiol trwy ddigwyddiadau megis, diwrnodau dathlu arbennig ac enwi'r dosbarthiadau ar ôl enwogion Cymru.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang wedi treiddio i gynlluniau cwricwlaidd yr ysgol.  Mae cysylltiadau'r ysgol gyda'r gymuned a phobl fusnes lleol yn rhoi profiadau gwerthfawr i'r disgyblion o fyd gwaith a gweithgarwch menter a busnes.

**Addysgu:  Da**

Mae ansawdd yr addysgu`n gyson dda ar draws yr ysgol.  Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel a chaiff amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant eu defnyddio`n gyson.  Mae'r  ystod o ddulliau ac adnoddau a ddefnyddir yn  effeithiol i symbylu a herio`r disgyblion i wneud eu gorau.  Gan mwyaf,  anogir yr holl ddisgyblion yn gyson i weithio'n annibynnol ond mewn ambell wers mae gormod o arweiniad i'r disgyblion yn amharu ar eu datblygiad fel dysgwyr annibynnol.

Mae'r holl athrawon wedi sefydlu perthynas waith dda iawn â'r disgyblion. Mae cydweithio effeithiol y staff addysgu a chynorthwyol yn cyfoethogi ac ychwanegu at y profiadau dysgu yn y dosbarthiadau. Trwy weithredu effeithiol y cymorthyddion ar y rhaglenni ymyrraeth, mae cynnydd amlwg yng nghyflawniad carfannau penodol o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n ddiwyd i ddatblygu dulliau asesu ar gyfer dysgu ac mae'r egwyddorion a strategaethau a ddefnyddir yn gosod targedau clir i'r disgyblion ar gyfer gwella gwaith. Mae systemau asesu cadarn gan yr ysgol ar gyfer crynhoi cynnydd y disgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gweithdrefnau a pholisïau effeithiol yn eu lle i sicrhau iechyd a lles holl ddisgyblion yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn effeithiol iawn. Cyfranoga'r sesiynau cydaddoli yn arwyddocaol at greu awyrgylch gweddigar, gofalgar ac ysbrydol. Cynigir amrediad eang o brofiadau amrywiol a chyfoethog i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o gyfoeth diwylliannol Cymru a thu hwnt. Profwyd llwyddiant trwy ymdrechion y côr ar lwyfannau cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae perthynas dda rhwng yr ysgol ac asiantaethau allanol perthnasol i sicrhau'r ddarpariaeth briodol ar gyfer pob disgybl.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol ei chynllunio'n briodol o fewn gwaith y dosbarthiadau. Rhoir cyfle i'r disgyblion gymryd cyfrifoldeb dros iechyd a lles eu cyd-ddisgyblion ac ymfalchïant yn eu swyddogaethau. Mae gweithdrefnau trwyadl ar waith i ddileu ac i ddelio gydag unrhyw elfen o fwlio.

Mae gan y darparwr bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae'r systemau trylwyr sydd yn eu lle ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol iawn. Caiff y disgyblion eu hadnabod yn fuan, a sicrheir cynhaliaeth ychwanegol briodol trwy ddefnyddio amrywiaeth o raglenni ysgogol. Mae gan yr ysgol drefniadau arbennig o dargedu disgyblion sy'n tangyflawni. Maent yn derbyn cymorth ychwanegol pwrpasol er mwyn sicrhau cynnydd yn eu medrau llythrennedd. Caiff y cynlluniau a ddarperir ar gyfer y disgyblion eu hadolygu'n rheolaidd a'u haddasu mewn ymgynghoriad â'r rhieni.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Un o brif gryfderau'r ysgol yw'r ethos Cymraeg a Chymreig sy'n cael ei greu'n hynod lwyddiannus ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn gymuned agos a gofalgar sy'n darparu cyfle cyfartal i bob disgybl. Mae'r cwricwlwm yn galluogi pob disgybl i fanteisio'n llawn ar bob agwedd o'r profiadau addysgol sy'n cael eu darparu.

Rheolir ymddygiad da y plant drwy feithrin ethos hynod ofalgar a chadarnhaol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da iawn o'r adeilad.  Llwyddwyd i greu awyrgylch lliwgar, symbylus ac amrywiol sy'n meithrin balchder y disgyblion yn eu gwaith. Mae'r disgyblion wedi cyfrannu syniadau tuag at ddatblygu safle'r ysgol ac yn falch iawn o'r cyfraniad hwn.

Cedwir yr holl safle'n lân a thaclus.

| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn rhoi arweiniad strategol cryf i fywyd a gwaith yr ysgol.  Gwna'r uwch dîm rheoli ddefnydd da o ddadansoddiadau data ar berfformiad disgyblion.  Defnyddir yr wybodaeth yn effeithiol yn y broses hunan arfarnu er mwyn penderfynu ar flaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda mewn ystod eang o ddyletswyddau.  Mae'r llywodraethwyr yn ymwybodol o flaenoriaethau'r ysgol ac agweddau o berfformiad disgyblion.  Mae ganddynt bwyllgorau addas a strwythurau effeithiol yn eu lle i oruchwylio rheolaeth ariannol, adolygu polisïau a gweithdrefnau'r ysgol, sy'n sicrhau bod gofynion statudol yn cael eu bodloni.  Maent yn chwarae rhan fel cyfeillion beirniadol yn briodol.

Mae rolau a chyfrifoldebau staff wedi eu diffinio'n glir ac mae pawb yn eu deall.

Mae mentrau'r ysgol i gwrdd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn datblygu'n effeithiol iawn.  Rhoddir sylw blaenllaw i ddatblygiad yr iaith Gymraeg, lles disgyblion, a gweithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o weithdrefnau i arfarnu ei gwaith, gan roi ystyriaeth briodol i farn y rhieni, staff a disgyblion.  Mae'r arweinwyr a'r staff yn parchu barn y disgyblion ac yn mabwysiadu'r syniadau y maent yn eu cynnig.

Mae'r broses hunanarfarnu yn drylwyr, yn ddilys ac wedi ei seilio'n gadarn ar dystiolaeth uniongyrchol.  Mae'r ysgol yn monitro'n drylwyr y dysgu a'r addysgu, yn dadansoddi ystod eang o ddata cyrhaeddiad gwahanol grwpiau o ddisgyblion ac yn edrych ar eu gwaith.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen gynhwysfawr ac yn arenwi'n eglur yr elfennau sy'n gryfderau amlwg a'r meysydd i'w datblygu ymhellach.

Mae'r trefniadau rheoli perfformiad staff cyfan yn effeithiol ac yn arwain at fodloni anghenion hyfforddiant proffesiynol staff.  Sicrha gymuned ddysgu broffesiynol fewnol yr ysgol fod y staff yn datblygu a rhannu gwybodaeth berthnasol yn rheolaidd. Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol gydag ysgolion a phartneriaid eraill yn datblygu'n dda.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid sy'n cael effaith fuddiol ar les a chyrhaeddiad ddisgyblion. Mae cysylltiadau cryf iawn gyda'r rhieni sy'n dylanwadu ar lwyddiant y plant a'r ysgol. Meithrinir cysylltiadau gwerthfawr gyda busnesau lleol sy'n hybu ymwybyddiaeth dda o fedrau entrepreneuraidd.

Mae perthynas dda gydag ysgolion lleol eraill gan gynnwys y cylch meithrin a'r ysgol uwchradd. Mae trefniadau pwrpasol wedi eu sefydlu ar gyfer cysoni a chynyddu safonau.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol gydag ystod o asiantaethau allanol i gwrdd ag anghenion penodol unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae partneriaethau da gyda nifer o asiantaethau'r awdurdod lleol fel gwasanaeth lleferydd ac iaith, sy'n cael effaith bositif iawn ar ddatblygiad lles a chyrhaeddiad disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n dda iawn. Mae ystod dda o adnoddau ar gyfer dysgu ac addysgu. Mae digon o staff profiadol a gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o arbenigeddau staff i gynnig profiadau cyfoethog ac er mwyn gwella lles a chanlyniadau disgyblion.

Drwy reoli cyllid yn fanwl a gofalus, mae'r ysgol wedi llwyddo i fuddsoddi'n helaeth mewn datblygu ardaloedd allanol a mewnol ysgogol yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae’r ganran o ddisgyblion sy’n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 1 yn 2011 yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru ac yn uwch na’r teulu o ysgolion tebyg. Mae’r ganran o ddisgyblion sy’n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg yn uwch na chyfartaledd Cymru ac yn debyg i’r teulu o ysgolion. Mewn gwyddoniaeth, mae’r ganran yn uwch na chyfartaledd Cymru ond yn is na’r teulu.

O ran y perfformiad disgwyliedig yn y Gymraeg neu’r Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, mae canlyniadau’r ysgol yng nghyfnod allweddol 1 yn uwch na chyfartaledd Cymru a’r teulu o ysgolion. Mae’r canlyniadau hyn yn gosod yr ysgol ymysg y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae’r ysgol yn yr 50% uchaf o fewn Cymraeg a mathemateg ond yn yr 50% isaf mewn gwyddoniaeth.

Mae’r ganran sy’n cyrraedd tu hwnt i’r lefel ddisgwyliedig (lefel 3 neu uwch) eleni yng nghyfnod allweddol 1 yn is na’r teulu a Chymru yn y Gymraeg ac yn is na’r teulu mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae gwahaniaeth arwyddocaol rhwng canlyniadau’r bechgyn a’r merched mewn rhai meysydd. Mae canlyniadau’r merched yn sylweddol uwch na chanlyniadau’r bechgyn mewn ysgrifennu Cymraeg ac o fewn lefel 3 gwyddoniaeth. O fewn canlyniadau mathemateg lefel 3 mae canlyniadau’r bechgyn yn sylweddol uwch na’r merched.

Mae canlyniadau disgyblion cyfnod allweddol 1 dros bedair blynedd wedi codi yn raddol ers 2008 yn y Gymraeg. Gwelwyd gwelliant ar ganlyniadau’r teulu gyda 2010 yn eithriad. Mae canlyniadau’r Gymraeg wedi gosod yr ysgol yn gyson o fewn y 50% o ysgolion uchaf ac eithrio yn 2010.

Mae canlyniadau llafaredd a darllen wedi bod ar i fyny yn raddol ers 2006 a’r newid mwyaf sylweddol ar i fyny mewn ysgrifennu ers 2008/09.

O fewn Mathemateg mae’r canlyniadau wedi bod yn weddol gyson agos at ganlyniadau’r teulu ers 2008. Mae tueddiadau canlyniadau lefel 3 ar i lawr ychydig ers 2006/07.

Mae canlyniadau gwyddoniaeth wedi bod yn raddol godi ers 2006/07 ac yn parhau i fod yn agos at, neu ychydig yn is na’r teulu a Chymru ers 2008/09. Mae canlyniadau lefel 3 yr ysgol wedi bod yn uwch na’r teulu a Chymru yn 2009/10 ond ar i lawr yn 2011.

Mae’r ganran o ddisgyblion sy’n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o fewn yr holl bynciau a’r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011 yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru ac yn uwch neu’n agos at ganran canlyniadau’r teulu o ysgolion tebyg.

Mae’r ysgol yn cymharu’n ffafriol gydag ysgolion tebyg o feincnodi yn erbyn ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.  Mae’r ysgol ymhlith y 25% uchaf mewn Saesneg, Cymraeg a’r dangosydd pwnc craidd a’r 50% uchaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae’r ganran sy’n cyrraedd tu hwnt i’r lefel ddisgwyliedig eleni yng nghyfnod allweddol 2 yn uwch na’r  teulu a Chymru yn y Gymraeg a’r Saesneg ac yn uwch na Chymru mewn mathemateg ond yn is na Chymru a’r teulu mewn gwyddoniaeth.

Mae canlyniadau disgyblion cyfnod allweddol 2 yn y Gymraeg a’r Saesneg dros bedair blynedd wedi bod yn weddol wastad gyda’r ysgol yn gyson uwch na’r teulu a Chymru ers 2008.  Mae canlyniadau lefel 5 yr ysgol hefyd wedi bod yn gyson uwch na’r teulu a Chymru ers 2008 ac eithrio 2010 pan welwyd gostyngiad sylweddol.

Roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng canlyniadau’r bechgyn a’r merched yn 2011 o fewn y Gymraeg a’r Saesneg ar lefel 5 gyda chanlyniadau’r bechgyn yn sylweddol is na’r merched.

O fewn mathemateg mae’r canlyniadau wedi bod yn weddol gyson, yn uwch na’r teulu a Chymru ers 2008.   Mae’r canlyniadau lefel 5 wedi bod yn gyffredinol is na’r teulu ers 2008 ac eithrio 2009, ac yn is na Chymru yn 2008 a 2010.

Mae canlyniadau gwyddoniaeth wedi bod yn wastad ers 2008, yn debyg neu uwch na’r teulu ac yn well na Chymru ran amlaf.  Mae canlyniadau lefel 5 yr ysgol wedi bod yn weddol wastad ond ychydig yn is na’r teulu a Chymru ers 2008 ond am 2009 pan gafwyd cynnydd hyd at 42.9%.

Nid oes gwahaniaethau amlwg o fewn y data ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn gysylltiedig â grwpiau penodol o ddisgyblion megis disgyblion â hawl i ginio am ddim, disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, disgyblion mewn gofal neu o gefndiroedd lleiafrifol ethnig. Mae’r disgyblion hyn, ar y cyfan, yn llwyddo i gyrraedd lefelau sy’n unol â’u gallu.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Daeth 49 o ymatebion i law. Mae pob un yn datgan fod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol ac wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda a'u bod yn cael eu hannog i fod yn iach ac i ymarfer y corff yn rheolaidd. Mae pob un hefyd o'r farn fod yr ysgol yn helpu'r plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb a'u bod yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. Mae rhieni/gofalwyr yn datgan eu bod yn derbyn gwybodaeth yn gyson, fod yr addysgu yn dda a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae bron pob rhiant yn fodlon â'r cynnydd wna eu plant ac o'r farn fod yr ysgol yn cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau ar eu cyfer. Credant fod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch ac yn cynnig cymorth ychwanegol yn ôl yr angen.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd 103 o ddysgwyr cyfnod allweddol 2 yr holiadur. Mae'r dysgwyr oll yn datgan eu bod yn hapus, ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Dywedant fod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach a bod athrawon ac oedolion eraill o fewn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Maent hefyd yn gwybod beth i'w wneud a phwy i siarad â hwy os byddant yn gweld y gwaith yn anodd.

Mae bron pob un o'r disgyblion o'r farn eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, fod yna lawer o gyfleoedd iddynt ymarfer y corff yn rheolaidd a bod ganddynt ddigon o adnoddau ar gyfer gwneud eu gwaith.

Nododd llawer o'r disgyblion fod ymddygiad yn dda o fewn yr ysgol ac nad oes camymddwyn yn effeithio ar eu gallu i weithio.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Glyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Carolyn Thomas | Arolygydd Tîm |
| Terry Williams | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Llinos Mary Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Catrin Evans | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |